

2021 Rhif (Cy.)

2021 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A470
(Pontypridd, Rhondda Cynon Taf)
(Terfyn Cyflymder 50 mya Dros
Dro) 2021

The A470 Trunk Road (Pontypridd,
Rhondda Cynon Taf) (Temporary
50 mph Speed Limit) Order 2021

Gwnaed 26 Mawrth 2021

Made 26 March 2021

Yn dod i rym 1 Ebrill 2021

Coming into force 1 April 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be restricted because of the likelihood of danger to the public.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Pontypridd, Rhondda Cynon Taf) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2021.

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road (Pontypridd, Rhondda Cynon Taf) (Temporary 50 mph Speed Limit) Order 2021 and this Order comes into force on 1 April 2021.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1); a
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o gerbyttffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 450 o fetrau i'r gogledd o drwyniad y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Bridge Street, Pontypridd hyd at bwynt 1 cilometr i'r gogledd o'r pwynt hwnnw.

Cymhwyso

4. Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Atal Dros Dro

5. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau modur ar y darn o'r gefnffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys.

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1); and
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A470 Cardiff to Llangurig trunk road.

Restriction

3. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 50 miles per hour on the length of the northbound carriageway of the trunk road that extends from a point 450 metres north of the nosing of the northbound entry slip road at Bridge Street Interchange, Pontypridd to a point 1 kilometre north of that point.

Application

4. The restriction in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Suspensions

5. Any statutory provisions restricting the speed of motor vehicles on the length of the trunk road are suspended during such times as the restriction specified in article 3 of this Order applies.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

26 Mawrth 2021



Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Duration of this Order

6. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

26 March 2021



Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470
(PONTYPRIDD, RHONDDA CYNON TAF)
(TERFYN CYFLYMDER 50 MYA DROS DRO)
2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn sicrhau diogelwch defnyddwyr y ffordd ar gefnffordd yr A470 ym Mhontypridd, Rhondda Cynon Taf.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder 50 mya dros dro ar y darn o gerbyttffordd tua'r gogledd cefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o bwynt 450 o fetrau i'r gogledd o drwyniad y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Bridge Street, Pontypridd hyd at bwynt 1 cilometr i'r gogledd o'r pwynt hwnnw.

Daw'r Gorchymyn i rym am 00:01 o'r gloch ar 1 Ebrill 2021 a bydd yn parhau mewn grym am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A470 TRUNK ROAD (PONTYPRIDD,
RHONDDA CYNON TAF) (TEMPORARY 50
MPH SPEED LIMIT) ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to ensure the safety of road users on the A470 trunk road at Pontypridd, Rhondda Cynon Taf.

The effect of the Order is to impose a temporary 50 mph speed limit on the length of the northbound carriageway of the A470 trunk road that extends from a point 450 metres north of the nosing of the northbound entry slip road at Bridge Street Interchange, Pontypridd to a point 1 kilometre north of that point.

The Order comes into force at 00:01 hours on 1 April 2021 and will remain in force for a maximum duration of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government